



Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2022 am 2.00pm

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB), Philip Blaker (PB), Julie Brannan (JB), Hannah Burch (HB), Anne-Marie Duffy (AMD), Michael Griffiths (MG), Graham Hudson (GH), David W Jones (DWJ), Sharron Lusher (SL) a Jayne Woods (JW)

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Ashok Ahir (AA), Mark Pender (MP) a Kerry Davies (KD).

Cynrychiolwyr cyfreithiol: Laura Hughes (LH) a Dmitrije Sirovica (DS) o Browne Jacobson.

Ymddiheuriadau: John Latham (JL)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

1.1. Cafwyd ymddiheuriadau gan John Latham. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i gyfarfod eithriadol y Bwrdd a gynullwyd i ystyried yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â cholli dysgu gwahaniaethol sy'n deillio o bandemig Covid-19 ar gyfer cyfres arholiadau Haf 2022.

2. Opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â cholled wahaniaethol mewn dysgu

- 2.1 Cyflwynodd PB adroddiad (QWB53.2) a oedd yn nodi'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â cholli dysgu gwahaniaethol yn haf 2022. Bu cryn ddiddordeb yn y cyfryngau ynghylch y mater hwn yn gynharach yn y flwyddyn, er bod hyn wedi lleihau yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- 2.2 Cyfeiriwyd aelodau'r Bwrdd at Atodiad 2 yr adroddiad, o'r enw '*Effeithiau gwahaniaethol ar addysg a graddio yn haf 2022*' a oedd yn manylu ar yr opsiynau a ystyriwyd a'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy. Roedd hyn yn sail i asesiad effaith o'r opsiynau mwy ymarferol, a oedd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 2.5 Dywedodd PB wrth y Bwrdd, ar ôl ystyried yn llawn yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer cymwysterau i fynd i'r afael â cholledion gwahaniaethol mewn dysgu, fod Swyddogion yn teimlo bod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â thegwch a hydrinedd na ellid eu goresgyn. Argymhellwyd felly bod y Bwrdd yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynwyd.

- 2.6 Adroddwyd bod swyddogion wedi cyfarfod â'r Gweinidog i drafod yr opsiynau ar 28 Chwefror 2022, lle'r oedd y farn uchod yn cael ei rhannu. Yn dilyn ei gyfarfod, roedd y Gweinidog wedi dod i'r casgliad ei bod yn rhy gymhleth bwrw ymlaen â Thariff Effaith Covid ac roedd wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru edrych ar beth arall y gellid ei wneud i helpu dysgwyr. Roedd disgwyl i'r sefyllfa hon gael ei chadarnhau'n ysgrifenedig cyn bo hir.
- 2.7 Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried argymhellion y Swyddogion, ac yn ystod y drafodaeth a ddilynodd gwnaed y pwyntiau canlynol:
- Nodwyd bod y broses a gynhaliwyd i asesu'r opsiynau yn ddarn cynhwysfawr o waith, a bod y cyngor cyfreithiol wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth egluro safbwynt Cymwysterau Cymru.
 - Gofynnwyd a oedd diffiniad a rennir o'r hyn a oedd yn gyfystyr â 'cholled dysgu wahaniaethol'. Dywedwyd ei bod wedi bod yn anodd iawn darparu diffiniad gwrthrychol, felly roedd diffiniad gweithredol wedi'i sefydlu yn seiliedig ar y golled debygol o ddysgu yn dilyn absenoldeb parhaus o'r ysgol (diffiniad Llywodraeth Cymru o absenoldeb parhaus yw mwy na 6 wythnos). Fodd bynnag, o ystyried y gallai amgylchiadau dysgwr unigol amrywio'n fawr, roedd yn anodd iawn mesur colli dysgu gwahaniaethol mewn ffordd deg neu wrthrychol (er enghraifft, gallai dysgwr fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod sylweddol ond yn ymwneud â dysgu effeithiol neu fynychu'r ysgol ond wedi ymddieithrio am ryw reswm neu'i gilydd).
 - Adroddwyd bod Ofqual wedi mynd drwy broses debyg mewn ymgynghoriad â'r Adran Addysg. Daethant i'r casgliad nad oedd opsiwn teg ar gyfer mynd i'r afael â cholled dysgu wahaniaethol ac felly nid oeddent wedi symud y gwaith hwn ymhellach. Cadarnhawyd hefyd nad oedd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwriadu cyflwyno unrhyw fesurau ychwanegol.
 - Trafodwyd y cyngor cyfreithiol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y mater hwn, a chadarnhawyd y bu ymgysylltu sylweddol â Llywodraeth Cymru a CBAC, a siaradwyd ag arweinwyr ysgolion a cholegau hefyd. O'r olaf, dim ond un aelod a fynegodd gefnogaeth i fesurau ychwanegol, gydag eraill yn mynegi pryderon ynghylch sut y gellid cyflwyno'r rhain yn deg. Ni chafwyd ymgynghoriad pellach gan na fyddai hyn ond yn digwydd pe bai newid i'r trefniadau presennol y cytunwyd arnynt, ac nid oedd hynny'n cael ei argymhell. Ni chynigiwyd unrhyw gynigion eraill yn ystod y drafodaeth a gynhaliwyd.
 - Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyfleu ei safbwynt yn ysgrifenedig hyd yma, ond bod disgwyl i hyn gael ei ddarparu cyn bo hir.
 - Cadarnhawyd nad oedd categori apêl arbennig wedi'i argymhell gan fod ganddo faterion tebyg yn ymwneud â thegwch a chyfiawnder â'r opsiynau eraill a ystyriwyd.

- Trafododd y Bwrdd sut y dylid cyfleu unrhyw benderfyniad i'r cyhoedd a chytunwyd bod angen ymdrin â hyn mewn modd sensitif.

2.8 Ar ôl trafodaeth bellach, cytunodd y Bwrdd ar yr argymhellion a gynigiwyd yn yr adroddiad. Cadarnhawyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at y Gweinidog i'w hysbysu o'r penderfyniad.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Cytunodd y Bwrdd, yn seiliedig ar y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r drafodaeth ddilynol arno, na ddylid bwrw ymlaen â'r un o'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â cholli dysgu gwahaniaethol.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.35pm